Senedd Cymru
**Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

Rhagfyr 2025

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cafodd Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2] (y Memorandwm), gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (yr Asesiad Effaith), eu cyflwyno gan Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Gyflawni (y Cwnsler Cyffredinol) ar 3 Tachwedd 2025.

**2.** Yn ystod ei datganiad llafar adeg cyfllwyno'r Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai pwrpas y Bil yw "cryfhau atebolrwydd Aelodau'r Senedd drwy rymuso'r systemau sy'n rheoleiddio ac yn sancsiynu ein hymddygiad a'n hymarweddiad".[3]

**3.** Nod y Bil yw cryfhau atebolrwydd Aelodau o'r Senedd:

- drwy ddarparu mecanwaith i alw Aelod etholedig yn ôl, a'i ddiswyddo o'i swydd yn ystod ei dymor ar sail ewyllys a fynegir gan bleidleiswyr yn yr etholaeth berthnasol;
- drwy gryfhau proses safonau'r Senedd fel y'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan gynnwys gofyniad bod rhaid i bob Senedd sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol a thrwy benodi aelodau lleyg;
- drwy roi mwy o hyblygrwydd i Gomisiynydd Safonau y Senedd ystyried yn rhagweithiol bryderon ynghylch ymddygiad Aelodau o'r Senedd;
- drwy ddiwygio pŵer Gweinidogion Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau'r Senedd, yn benodol drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau ffug.[4]

**4.** Cymerodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 20 Tachwedd 2025[5], gan:

- Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni;

---

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau).
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 4 Tachwedd, paragraff 150
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 3
[5] Agenda'r Pwyllgor Cyllid, 20 Tachwedd 2025

- Ryan Price, Pennaeth Polisi'r Senedd, Llywodraeth Cymru;
- Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru.

**5.** Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau a graffodd ar bolisi'r Bil.[6]

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[7]

[6] Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Goblygiadau ariannol y Bil

## Crynodeb o gostau

**7.** Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith wedi'u gwerthuso dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2026-27 a 2035-36. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu dau gylch etholiadol y Senedd ac felly mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn "ddigonol er mwyn i'r amcangyfrif o'r costau gyrraedd cyflwr sefydlog".[8]

**8.** Amcangyfrifir bod cyfanswm cost y Bil yn amrywio rhwng £262,600 a £1,289,600 dros y cyfnod asesu. Costau gweinyddol yn unig yw'r rhain, ac nid oes unrhyw arbedion costau, costau cydymffurfio na chostau eraill wedi'u nodi.[9]

**9.** Mae cyfanswm y costau gweinyddol yn cynnwys costau trosiannol o £262,600 a chostau cylchol rhwng £0 a £1,024,000. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- y gost fesul uned i Weinyddwyr Etholiadol weinyddu pôl adalw'r Senedd mewn un etholaeth ("oddeutu" £274,900);
- y costau cyfle ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn 2026-27 sy'n gysylltiedig â gwneud rheoliadau i nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal pôl adalw. (£190,800);
- y costau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer llunio canllawiau (amcangyfrifir y bydd yn amrywio rhwng £72,000 a £75,000). Mae hyn yn cynnwys costau cyfle untro (£64,800) a chostau untro ar gyfer caffael cyngor cyfreithiol allanol ac ymchwil academaidd (£7,000 i £10,000).[10]

**10.** Nid yw'r Asesiad Effaith yn nodi unrhyw gostau ychwanegol i'r Comisiwn Etholiadol.[11]

**11.** Amcangyfrifir bod y gost i Gomisiwn y Senedd ar gyfer recriwtio aelodau lleyg yn amrywio rhwng £13,000 a £28,000 fesul Senedd. Mae £8,000 ohono yn gost cyfle, a rhwng £5,000 a £20,000 yn gostau ar gyfer hysbysebu a defnyddio cwmni recriwtio allanol. Amcangyfrifir bod costau yn ymwneud â thâl aelodau lleyg yn

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 37 a 43
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 38-39
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 38
[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 38

amrywio rhwng £0 a £87,200 y flwyddyn, ac amcangyfrifir y bydd costau cymorth TGCh yn amrywio rhwng £0 a £10,500 y flwyddyn.[12]

**12.** Wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd Safonau, nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi'u nodi mewn perthynas â'r pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun.[13]

**13.** Wrth gyfeirio at ddull Llywodraeth Cymru o amcangyfrif costau gweithredu'r Bil, cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol at gyfres o drafodaethau manwl gyda rhanddeiliaid, ond dywedodd:

> *"… obviously, this is a new system, and it's being imposed on a new electoral system, so we've had to make some assumptions around that. They are based on, we think, good evidence for why the assumption is as it is, but we don't have very much in the way of historical data to base it on."*[14]

**14.** O ran yr amcangyfrifon ar gyfer cost y pôl adalw yn benodol, myfyriodd y Cwnsler Cyffredinol ar brofiad Senedd y DU:

> *"… there haven't been very many, and, in half of those, the Member has resigned, and so no poll has had to take place. So, we're assuming these are very rare, with perhaps one a Senedd cycle, two if you're really unlucky. So, we've made assumptions like that, but, again, nobody will know until we're actually running this."*[15]

**15.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod yr Asesiad Effaith yn cymryd yn ganiataol y bydd aelodau lleyg yn cael eu penodi, er mai darpariaeth ganiataol yn hytrach na darpariaeth orfodol yw hyn yn y Bil, a nododd fod Comisiwn y Senedd wedi datblygu'r ffigurau hyn. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I am expecting the committees that are looking at this to take a view as to what to do with that permission, if you like. I think it's obvious already that some of those will turn into duties rather than powers. We've tried to reflect some of that in our cost estimates for the Bill."*[16]

---

[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 38
[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 38
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 224
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 227
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 225

## Manteision

**16.** Er y rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at nifer o fanteision, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw wedi bod yn bosibl pennu gwerth ariannol y manteision hyn ar hyn o bryd.[17]

**17.** Mae'r Asesiad Effaith yn cynnwys rhai enghreifftiau o fanteision anariannol:

- gwella atebolrwydd democrataidd trwy roi'r gair olaf i'r etholwyr ynghylch diswyddo Aelod o'i swydd neu beidio;
- gwella ymddiriedaeth yn ein sefydliadau democrataidd drwy ganiatáu diswyddo Aelodau o'r Senedd, yr ystyrir bod eu hymddygiad o'r natur fwyaf difrifol fel y nodir yn y Cod Ymddygiad;
- rhoi digon o bwerau i'r Senedd ymdrin ag achosion o gamymddwyn difrifol gan Aelodau, a chyflwyno adalw yn hytrach nag atal Aelod dros dro fel y sancsiwn terfynol y gellir ei osod;
- cryfhau proses safonau'r Senedd drwy gyflwyno aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, sy'n ychwanegu arbenigedd allanol ac yn lleihau'r canfyddiadau bod y broses yn un 'wleidyddol' ac yn 'bleidiol';
- cryfhau proses safonau'r Senedd drwy roi'r pŵer i'r Comisiynydd Safonau ddechrau ymchwiliadau yn annibynnol, gan ddarparu hyblygrwydd i gynnal y safonau a ddisgwylir gan yr Aelodau, fel y nodir yn y Cod Ymddygiad.[18]

**18.** Pan ofynnwyd iddi egluro sut mae Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi manteision mesuradwy posibl, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"We haven't tried to quantify them, but there are clearly a series of benefits here that I just don't think lend themselves to that kind of monetisation at all, really. So, we've tried to separate out the actual costs of doing it from the benefits overall, but I don't think they can be quantified in that sense."*[19]

[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 41
[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 52
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 237

## Pôl adalw

**19.** Bydd y Bil yn cyflwyno system adalw sy'n caniatáu i'r etholwyr ddwyn Aelodau i gyfrif yn uniongyrchol. Er y bydd y rheolau manwl ar gyfer pôl adalw yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth, mae'r Asesiad Effaith yn nodi fod drafftio'r Bil yn "gwneud darpariaeth ar gyfer system sydd mor debyg â phosibl i Etholiad Cyffredinol i'r Senedd." Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r un gorsafoedd pleidleisio a'r un dosbarthau pôl a darpariaethau tebyg o ran pleidleisiau drwy'r post, creu cardiau a phapurau pleidleisio, ac o ran amseru.[20]

### Costau neu anfanteision heb eu meintoli

**20.** Wedi ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, mae'r Asesiad Effaith yn canfod "nifer o feysydd a allai amrywio wedi eu nodi o ran cynnal pôl adalw":

- byddai absenoldeb proses enwebu yn arbediad o ran amser staff, ond gan nad yw hyn fel arfer yn cael ei adennill, nid oes iddo fawr o berthnasedd;
- arbedion os bydd papurau pleidleisio yn llai, ond mae'n annhebygol y byddent yn arbedion sylweddol;
- cyflenwi papurau pleidleisio drwy'r post yn gynt gan na fyddai cyfnod enwebu, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gost;
- gall y cyfrif fod ychydig yn symlach ac angen llai o staff neu leoliadau llai o faint, er mae'n debygol y bydd arferion presennol yn cael eu cadw oherwydd natur ddadleuol polau adalw, gan gyfyngu ar ostyngiadau mewn costau;
- gallai'r galw am gofrestru etholiadol gynyddu, ond mae'n anodd rhagweld hyn ac mae'n annhebygol o fod yn wahanol iawn i etholiad i'r Senedd.[21]

**21.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi fel a ganlyn:

> *"... ystyrir ym mhob achos mai bychan yw natur y rhain ac ni chânt eu meintoli felly yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn."*[22]

[20] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 44-45
[21] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 40
[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 40

## Costau i Lywodraeth Cymru

**22.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi asesu'r gost o weinyddu pôl adalw ar y cyd â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, gan gynnwys:

- pennu costau gweinyddu etholiad cyffredinol i'r Senedd yn 2021;
- hepgor costau sy'n gysylltiedig â COVID-19;
- addasu'r costau ar gyfer newidiadau i'r system etholiadol yn sgil newidiadau a wnaed drwy Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024;
- codi costau i'r prisiau cyfredol gan ddefnyddio'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros;
- ystyried amrywiadau etholaethau a'r gwahaniaethau rhwng etholiadau cyffredinol a pholau adalw.[23]

**23.** Er mwyn cyfrifo costau amcangyfrifedig 2025, mae'r Asesiad Effaith yn darparu isafswm (£60,775), uchafswm (£182,616) a chyfartaledd (£98,393) ar gyfer costau i weinyddwyr etholiadol weinyddu etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021. Mae cyfanswm y gost gyfartalog i weinyddwyr etholiadol ar draws y 40 etholaeth yn 2021 wedi'i rannu â 16 i ystyried nifer yr etholaethau newydd (gan gynnwys cael gwared ar yr arbedion a nodwyd yn yr Asesiad Effaith) ac uwchraddio ar gyfer chwyddiant. O ganlyniad, mae'r Asesiad Effaith yn nodi cost uned oddeutu £274,900 ar gyfer cynnal pôl adalw y Senedd mewn un etholaeth.[24]

**24.** Er mwyn amcangyfrif cost weinyddu pôl adalw, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyfrifo cyfartaledd y gwahaniaeth mewn maint ac ardal ddaearyddol ar gyfer pob un o'r etholaethau. Pan ofynnwyd a ddefnyddiwyd ffigurau Etholiad Cyffredinol y DU 2024, o ystyried bod parau o etholaethau San Steffan i'w defnyddio ar gyfer Etholiad y Senedd 2026, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"I don't think we have used those, no. We've used our own election figures, because they're the ones that we have best access to. But we haven't got any administration cost data for the 2016 ones."*[25]

[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 45
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 46
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraffau 245 a 250

**25.** Mae cymhariaeth o gostau amcangyfrifedig 2021 a chostau cyfrifedig 2025 yn Nhabl 1.[26]

***Tabl 1: Crynodeb o'r costau i weinyddwyr etholiadol***

| | Amcangyfrif (prisiau 2021) | Amcangyfrif (prisiau 2025) |
|---|---|---|
| Gweinyddwyr etholiadol | £13,710 | £16,502 |
| Gorsafoedd pleidleisio | £102,714 | £123,637 |
| Pleidleisiau drwy'r post | £46,882 | £56,432 |
| Cardiau pleidleisio | £33,146 | £39,897 |
| Cyfrif | £35,398 | £42,608 |
| Arall | £14,133 | £17,012 |
| Is-gyfanswm | £245,982 | £296,089 |
| Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 | | -£21,157 |
| **Cyfanswm** | | **£274,931** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol[27]

**26.** Gan fod swyddogion awdurdodau lleol (gweinyddwyr etholiadol) yn cael eu hariannu ar gyfer gweinyddu etholiadau'r Senedd, mae'r Asesiad Effaith yn nodi mai Llywodraeth Cymru, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am y costau.[28]

**27.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw'n bosibl nac yn briodol "asesu amlder tebygol ymddygiad yr Aelodau a allai arwain at sancsiwn adalw". Felly, mae costau'n cael eu cyflwyno fel "cost uned" fesul pôl adalw, "yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau sy'n sail i'r gost debygol o gynnal etholiad yn seiliedig ar y system etholiadol newydd".[29]

**28.** Eglurodd y Cwnsler Cyffredinol y rhesymeg dros gyflwyno cost adalw fel "cost uned":

> *"… we've assumed that they'd be very rare. One a Senedd term would be too many. So, they're demand-led. And it's dependent*

---

[26] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 46
[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 46
[28] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 44
[29] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 41

> *on the cohort of Members, and how the standards of conduct committee takes a view."*[30]

**29.** Nododd yr Asesiad Effaith y bydd costau staff (costau cyfle) o £190,800 i Lywodraeth Cymru yn 2026-27 ynghylch gwneud rheoliadau dan bwerau dirprwyedig newydd. Gan ystyried mai gwneud y rheoliadau fydd y defnydd cyntaf o'r pŵer newydd, mae Llywodraeth Cymru'n nodi ansicrwydd cynhenid o ran cynnal asesiad o'r amser tebygol y mae ei angen i lunio rheoliadau cynhwysfawr.[31]

**30.** Er gwaethaf ansicrwydd o'r fath, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei bod yn eithaf hyderus y gellir cyflawni'r rheoliadau o fewn yr amcangyfrif o gostau cyfle. Ychwanegodd:

> *"The statutory instrument will be a mini version of the conduct Order, so we don't think it's a particularly onerous task to do."*[32]

**31.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y bydd cynlluniau ymgysylltu ac ymgynghori penodol yn cael eu datblygu ar gyfer llunio'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ar reolau manwl pôl adalw.[33]

## Costau i Gomisiwn y Senedd

**32.** Mae'r Bil yn gofyn bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn llunio canllawiau ar sancsiynau, gan gynnwys gofynion ymgynghori cyn i'r Senedd eu cadarnhau. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi amcangyfrifir cost cyfle untro i Gomisiwn y Senedd ar gyfer cefnogi'r gwaith hwn yn £64,800 ar gyfer amser staff a rhwng £7,000 a £10,000 ar gyfer caffael cyngor cyfreithiol allanol ac ymchwil academaidd. Amcangyfrifir y bydd y cyfanswm costau yn amrywio rhwng £71,800 a £74,800. Rhagwelir yr ysgwyddir y gost hon yn ystod 2026-27.[34]

**33.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd "ni ragwelir y byddai'r broses o gychwyn pleidlais adalw yn golygu gwaith ychwanegol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad na'r Senedd, y tu hwnt i fusnes fel arfer". Hefyd, nid yw Comisiwn y Senedd yn rhagweld y byddai angen bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o bôl adalw mewn etholaeth, a digon dibwys fyddai'r angen am

---

[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 243
[31] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 38 a 41
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 241
[33] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 33
[34] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48

amser staff wrth ddelio ag ymholiadau'r cyfryngau a thasgau eraill fel cyhoeddi canlyniadau pôl adalw a threfnu i Aelod newydd dyngu llw.[35]

## Costau i'r Comisiwn Etholiadol

**34.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi y bydd cyfrifoldebau'r Comisiwn Etholiadol yn ymestyn i bleidleisiau adalw'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adrodd ar weinyddu unrhyw bôl adalw;
- adolygu'n rheolaidd a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar faterion datganoledig;
- bod yn bresennol mewn pôl adalw;
- paratoi cod ymarfer ynghylch presenoldeb arsylwyr mewn pôl adalw;
- ymgynghori ar unrhyw newid i'r gyfraith etholiadol a wneir drwy reoliad (a chydsynio i bennu terfynau gwariant);
- rhoi cyngor a chymorth.[36]

**35.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi y gellir cyflawni'r dyletswyddau hyn "gan ddefnyddio adnoddau a phecynnau cyllid presennol".[37]

**36.** Cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol at y berthynas agos â'r Comisiwn Etholiadol wrth ddatblygu'r Bil. Roedd Llywodraeth Cymru eisiau iddynt weld y goblygiadau yr holl amser, ac i fod yn hapus â'r Bil. Parhaodd fel a ganlyn:

> *"… we've asked them for their assessment of the likely cost implications, and they were very satisfied that the cost would be negligible and would be met from existing budgets, because that's basically business as usual for them. So, they were pretty clear that they weren't expecting it to be anything other than business as usual."*[38]

**37.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, mae'r Comisiwn Etholiadol yn datgan:

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB09 – Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
[36] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 47
[37] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 47
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 254

> *"…byddem yn disgwyl rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr am y broses ar gyfer unrhyw etholiad adalw drwy ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, a byddem yn rhoi arweiniad i Swyddogion Canlyniadau Etholaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r etholiad. Efallai y bydd angen ychydig o adnoddau ychwanegol i ddarparu'r gweithgareddau hyn, ond nid yw'n debygol y bydd yr adnoddau hyn yn niferus."*[39]

**38.** Hefyd, dywed y Comisiwn Etholiadol nad yw ei rôl yn glir wrth sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ynghylch rhoddion a threuliau ymgyrchu pleidlais adalw. Yn dibynnu ar gwmpas y cyfrifoldebau hyn, mae'r Comisiwn Etholiadol yn nodi "efallai y bydd rhai goblygiadau ariannol pellach".[40]

## Costau i bleidiau gwleidyddol

**39.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi y gall cyflwyno system adalw arwain at gostau ychwanegol yn ogystal ag arbedion i bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, dywed Llywodraeth Cymru na fyddai modd mesur y costau na'r arbedion hyn oherwydd y gallent amrywio'n helaeth, yn dibynnu os yw Aelod o restr plaid yn cael ei adalw a'r graddau y mae'r blaid yn chwarae rhan yn y broses.

> *"Er enghraifft, mae'n dibynnu a fyddai'r blaid wleidyddol yn cefnogi'r Aelod mewn pôl adalw, neu a fyddai'n ceisio ei ddiswyddo er mwyn dychwelyd y person cymwys nesaf ar ei rhestr plaid. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar unrhyw gostau ac arbedion posibl Gan nad yw'r penderfyniadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil ac nad ydynt wedi eu gwneud eto gan bleidiau gwleidyddol, nid yw'n bosibl eu mesur ac nid yw costau nac arbedion yn hysbys ar hyn o bryd."*[41]

**40.** Pan ofynnwyd am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â phleidiau gwleidyddol ynglŷn ag unrhyw gostau posibl sy'n gysylltiedig â'r Bil, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd Panel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd[42] a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiadol ym mis Gorffennaf a mis Thachwedd. Ychwanegodd swyddog y Cwnsler Cyffredinol:

> *"I think it's very difficult to make an assumption on how parties will campaign or not campaign or behave or spend during a*

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB15 – Y Comisiwn Etholiadol
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB15 – Y Comisiwn Etholiadol
[41] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 51
[42] Panel Pleidiau'r Senedd

> *recall poll. I think it's very difficult to lift and try and extrapolate from the UK figures. So, it was very much us explaining the policy intent, but without that baseline of how political parties are likely to behave. We thought it was very difficult to make an assessment of what those costs are likely to be in reality."*[43]

## Aelodau lleyg

### Costau i Gomisiwn y Senedd

**41.** Mae'r Bil yn caniatáu i'r Senedd benodi unigolion nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd (aelodau lleyg) i eistedd ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac unrhyw is-bwyllgor o'r Pwyllgor hwnnw. Mae'r Bil yn nodi na ddylai nifer yr aelodau lleyg fod yn fwy na nifer yr Aelodau etholedig ar y Pwyllgor ac y bydd y cyfnod swydd ar gyfer aelod lleyg yn gyfnod penodol o ddim mwy na chwe blynedd.[44]

**42.** Mae'r Asesiad Effaith yn tybio y byddai'r broses o hysbysebu am aelodau lleyg, eu recriwtio a'u penodi yn debyg i benodiadau cyhoeddus eraill y Senedd, gydag amcangyfrifon cost yn seiliedig ar brofiadau o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Rhagwelir cost rhwng £13,200 a £28,200 fesul Senedd, gyda £8,200 ohono yn gost cyfle yn ymwneud ag amser staff, a rhwng £5,000 a £20,000 yn gostau ar gyfer hysbysebu a chymorth posibl gan gwmni recriwtio allanol. Oherwydd bod ansicrwydd ynglŷn ag amseru ac amlder gweithgarwch recriwtio, mae'r costau wedi eu cyfrifo fesul blwyddyn o 2026-27.[45]

**43.** Fe wnaethom ni holi pam mae'r ystod bosibl o gostau ar gyfer penodiadau aelodau lleyg yn cael ei gyflwyno fesul tymor pedair blynedd y Senedd, er bod y Bil yn caniatáu penodiadau am hyd at chwe blynedd. Mewn ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai unrhyw Gomisiwn yn eithaf annoeth i benodi'r holl aelodau lleyg am yr un cyfnod swydd. Awgrymodd y byddai'n well gwneud penodiadau yn raddol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae pawb yn dechrau ac yn gorffen ar yr un pryd; gallai hyn arwain at golli parhad ac arbenigedd.[46]

**44.** Wrth fynd i'r afael â'r penderfyniad i gynnwys y gost o ddefnyddio cwmni recriwtio allanol, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"… we've discussed potential approaches with the Senedd Commission officials, and we've been very guided by the*

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 270
[44] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 69-71
[45] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 48-49
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraffau 262 i 263

> *Senedd Commission officials' view of this. So, we've concluded that it would be reasonable to assume that the process of advertising for recruiting and appointing lay members would be comparable to public appointments previously undertaken by the Senedd, and the experience of the Senedd conducting such exercises in the past. That includes the cost of advertising. They do use external recruitment companies, to ensure the best candidates are attracted."*[47]

**45.** Mae'n ansicr a fyddai Seneddau'r dyfodol yn defnyddio pwerau'r Bil i benodi aelodau lleyg, ac mae ansicrwydd ynglŷn â nifer y penodiadau, a pha lefel tâl fyddai'n berthnasol. Oherwydd ansicrwydd o'r fath, mae'r Asesiad Effaith yn dweud bod Comisiwn y Senedd wedi nodi'r "tâl a chostau TGCh ar gyfer aelodau lleyg fel cost anhysbys".[48]

**46.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, "fy marn i yw mai'r dull mwyaf priodol o nodi costau cyflogau sy'n gysylltiedig ag aelodau lleyg yw 'anhysbys'". Er ei bod yn cydnabod bod yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol wedi gosod cyfradd ddyddiol o £600 ar gyfer aelodau lleyg Tŷ'r Cyffredin, awgrymodd efallai na fydd hyn yn briodol "oherwydd nad yw rôl aelodau lleyg yng ngwaith Pwyllgor y Senedd yn hysbys". Parhaodd fel a ganlyn:

> *"Nid yw'r ystod enghreifftiol o gostau, felly, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gennyf fi. Fodd bynnag, rwy'n deall dymuniad Llywodraeth Cymru i ddarparu eu costau rhesymol, amcangyfrifedig."*[49]

**47.** Tynnodd y dystiolaeth ysgrifenedig sylw hefyd at yr angen i ystyried y cyfnod sefydlu a'r cymorth parhaus i unrhyw aelodau lleyg a benodir gan y Senedd, os caiff y ddeddfwriaeth ei phasio.[50]

**48.** At ddibenion yr Asesiad Effaith mae Llywodraeth Cymru yn darparu costau darluniadol yn amrywio rhwng £0 a £87,200 y flwyddyn ac yn tybio y byddai unrhyw gostau blynyddol yn dechrau yn 2026-27. O ran amcangyfrif pen uchaf y costau posibl, mae Llywodraeth Cymru yn tybio fel a ganlyn:

[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 260
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB09 – Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB09 – Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

- y byddai uchafswm yr aelodau lleyg yn cael eu penodi (hynny yw, yr un nifer â nifer aelodau etholedig y Pwyllgor),
- y byddai nifer yr aelodau etholedig ar y Pwyllgor yn chwech, gan adlewyrchu'r cynnydd ym maint y Senedd,
- y gyfradd tâl am hyn yw £400 y dydd, ac
- y byddai aelodau lleyg yn eistedd am 25 diwrnod y flwyddyn.[51]

**49.** Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Mae'n bwysig nodi bod hyder isel o ran cywirdeb y rhagdybiaethau a wneir."*[52]

**50.** Gan gydnabod yr ansicrwydd ynghylch yr amrediad enghreifftiol o gostau a gyflwynwyd, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"… the estimated cost is a range from nothing to eighty-seven-and-a-bit thousand pounds, to reflect the range of things that might happen. So, I guess we thought it would be helpful to set out the widest range of costs possible and not make any real assumptions, because, until the Commission comes to some conclusions, it's hard to know."*[53]

**51.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei bod yn rhagweld diwygiadau yn ystod y broses graffu i wneud rhai darpariaethau yn orfodol, a fyddai'n galluogi amcangyfrifon cost mwy sicr.[54]

**52.** Mae'r Asesiad Effaith hefyd yn nodi costau cymorth TGCh o £7,000 fesul aelod dros dymor pedair blynedd Senedd, gan ddarparu ar gyfer ystod flynyddol o £0 – £10,500.[55]

**53.** Pan ofynnwyd iddi am y trefniadau ariannu ar gyfer aelodau lleyg, nododd y Cwnsler Cyffredinol y byddai'n rhesymol disgwyl llinell wariant ar wahân yn y gyllideb ar gyfer penodi aelodau lleyg, yn wahanol i gyllideb y Comisiynydd Safonau, ond mai mater i Gomisiwn y Senedd fyddai hyn.[56]

[51] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 49-50
[52] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 263
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 264
[55] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 50
[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraffau 290 a 292

**54.** O ran y dull o graffu ar y llinell wariant ar gyfer aelodau lleyg, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd yn dibynnu ar ddatblygiad y Bil, megis y posibilrwydd o bwyllgor apeliadau ar wahân neu is-bwyllgor o'r pwyllgor safonau:

> *"If you end up with a standards commissioner and lay members on a standards committee and a sub-committee of that committee, you can see it could be scrutinised as part of the standards line, if you like. But if you end up with an appeal committee that's separate to the standards committee and is a stand-alone committee in its own right, then clearly, that wouldn't be appropriate. So, I think we're going to have to take a view once we see the eventual shape of that."*[57]

**55.** Wrth drafod cost y broses apeliadau, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol eu bod wedi ceisio ei gynnwys yn yr amlen ariannu uchaf ond tynnodd sylw at ansicrwydd ynghylch y strwythur terfynol, a ph'un ai fydd hynny'n gweithredu fel pwyllgor sy'n sefyll ar ben ei hun, neu fel is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.[58]

## Y Comisiynydd Safonau

**56.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer galluogi'r Comisiynydd Safonau i gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun i achosion o Aelod yn torri rhwymedigaeth neu bryderon am ymddygiad Aelod. Ar ôl ymgysylltu â'r Comisiynydd Safonau, dywed yr Asesiad Effaith:

> *"… nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi eu nodi o ran yr elfen hon o'r ddeddfwriaeth. Caiff hyn ei lywio gan brofiad y Comisiynydd fel Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon, sef rôl a oedd yn cynnwys y pŵer i ddechrau ymchwiliadau."*[59]

**57.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd fod "y costau yn sgil cyfleoedd, sy'n deillio o'r pŵer hwn, yn ddibwys, yn anhysbys, ac yn deillio o fewn yr adnoddau presennol". Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Drwy gysylltiad, ystyriwyd, hefyd, fod yr amser staff a dreuliwyd yn cefnogi Pwyllgor Safonau Ymddygiad wrth adrodd ar unrhyw achosion sy'n deillio o bŵer y Comisiynydd yn ddibwys, yn anhysbys, ac yn deillio o'r adnoddau presennol. Ni nodais,*

[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraffau 294 i 295
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraffau 315 a 319
[59] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 50

> *felly, unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer y pŵer hwn, fel yr adlewyrchir ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru."*[60]

**58.** Pan ofynnwyd iddi ymhelaethu ar y casgliad na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo, eglurodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"… the commissioner was pretty clear that they didn't think there were any additional costs in that… they obviously thought they would be able to manage it inside the current envelope. It's not for us to say. That was very vehemently the view taken."*[61]

**59.** Ychwanegodd un o swyddogion y Cwnsler Cyffredinol, fod y Comisiynydd Safonau, yn ogystal â'i brofiad o ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun mewn rôl flaenorol, wedi nodi y byddai unrhyw faes lle gallai gynnal ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun yn debygol iawn o ddenu cwynion pa un bynnag.[62]

**60.** Wrth ymddangos gerbron Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, dywedodd y Comisiynydd Safonau ei fod yn rhagweld mai yn anaml iawn y byddai'n defnyddio'r pŵer i gychwyn ymchwiliadau ac unwaith yn unig roedd wedi'i ddefnyddio pan oedd yn Gomisiynydd Safonau ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon. Ychwanegodd:

> *"In the six years in which I've been working in the Senedd, I can think of only two occasions on which I would have considered using this power, had it been available. Both of these were alleged misconduct that had been widely reported in the media, and I think it sends the wrong signal to the public when they read of that and no action is taken. Now, no action could be taken because, much to my surprise, not a single person made a complaint about either of the incidents, perhaps assuming that someone else was going to do that."*[63]

## Asesiad fforddiadwyedd

**61.** Mae asesiad fforddiadwyedd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n unig ar gostau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod ar gyfer yr un cyfnod

[60] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB09 – Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 288
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 302
[63] Pwyllgor Atebolrwydd Aelodau, Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2025, paragraff 131

â'r Asesiad Effaith. Mae costau cyfle sy'n gysylltiedig ag amser staff presennol wedi eu heithrio oherwydd nad ydynt yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol.[64]

**62.** Mae'r Asesiad Effaith yn dweud bod y costau ariannol wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant yn ystod y cyfnod arfarnu gan ddefnyddio amcanestyniadau Cynnyrch Domestig Gros y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllideb[65], sy'n ymestyn at 2029-30. Y tu hwnt i hynny, rhagdybir cyfradd o 1.9 y cant. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod ansicrwydd ynghylch chwyddiant yn parhau ac y bydd yn monitro ei effaith ar gostau'r Bil.[66]

***Tabl 2: Costau ariannol i Gomisiwn y Senedd rhwng 2026-27 a 2035-36 (£)***

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm costau | | | | | |
| Isafswm | 7,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uchafswm | 111,100 | 101,100 | 101,100 | 101,100 | 101,100 |
| Cyfanswm wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant | | | | | |
| Isafswm | 7,100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uchafswm | 113,000 | 104,800 | 106,800 | 108,900 | 110,900 |

| | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm costau | | | | | |
| Isafswm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uchafswm | 101,100 | 101,100 | 101,100 | 101,100 | 101,100 |
| Cyfanswm wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant | | | | | |
| Isafswm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uchafswm | 113,000 | 115,200 | 117,400 | 119,600 | 121,900 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol[67]

[64] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 60
[65] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon economaidd a chyllidol, Mawrth 2025
[66] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 60
[67] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 60

**63.** Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol pam mae'r asesiad fforddiadwyedd yn canolbwyntio ar gostau Comisiwn y Senedd a pham nad yw'n cynnwys costau i sefydliadau eraill:

> *"We expect the Bill to result in cash costs as opposed to opportunity costs for the Commission. The Welsh Government costs are all opportunity costs, and so are not included, really, and the unit cost isn't annualised, so it's not included in the affordability assessment because they're unit costs. The cost of running a recall poll would be an additional cost to that, I guess… we've gone through a process of trying to work out what an annualised cost might look like, and then what the unit costs look like. That's where we've arrived."*[68]

## Amseru

**64.** Disgrifiodd y Cwnsler Cyffredinol amseru'r Bil fel bod yn "eithriadol" a dywedodd y byddai unrhyw lithriad o gwbl yn ei beryglu:

> *"… this is not an optimal position to be in. Normally, we would introduce a Bill that allowed the committees to have enough room to manoeuvre and to come to the right sorts of conclusions. This isn't the right committee to say some of the things about what's not in the Bill, but some of the reasons that the things that are not in the Bill are not in the Bill is because there isn't time to do it properly, and anything that causes the timetable to slip loses the Bill completely."*[69]

## Barn y Pwyllgor

**65.** Mae'r Pwyllgor yn nodi amcanion y Bil a'i fwriad i wella atebolrwydd Aelodau o'r Senedd drwy gryfhau'r systemau sy'n rheoleiddio a sancsiynu ymddygiad yr Aelodau. Rydym yn cydnabod yr heriau cynhenid wrth amcangyfrif y gost sy'n gysylltiedig â chyflwyno mecanwaith newydd ar gyfer adalw o fewn fframwaith etholiadol diwygiedig, ac yn nodi esboniad y Cwnsler Cyffredinol bod y rhagdybiaethau sy'n sail i'r amcangyfrifon yn cael eu llywio gan waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi'u cyfyngu gan brinder data hanesyddol.

[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 307
[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraffau 328 a 331

**66.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod yr ansicrwydd sylweddol ynglŷn â'r costau posibl o benodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, o ystyried natur ganiataol darpariaethau'r Bil. Rydym o'r farn bod y risgiau hyn yn cael eu lliniaru'n briodol trwy gynnwys ystodau cost eang yn yr Asesiad Effaith. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r Asesiad Effaith gael ei newid os caiff y Bil ei ddiwygio, er enghraifft i gyflwyno fframwaith gorfodol ar gyfer penodi aelodau lleyg neu i newid darpariaethau sy'n ymwneud â'u nifer.

**67.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd yn amlygu nad yw gofynion sefydlu a chymorth parhaus ar gyfer aelodau lleyg wedi'u costio a hoffem ddeall y goblygiadau ariannol yn sgil ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

**68.** O ran y trefniadau ariannu ar gyfer aelodau lleyg, rydym yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol ei bod yn rhesymol disgwyl llinell wariant benodedig yn y gyllideb ar gyfer aelodau lleyg, sydd ar wahân i gyllideb y Comisiynydd Safonau. Byddai'r dull tryloyw hwn yn galluogi'r Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau perthnasol eraill i fonitro gwariant a hwyluso craffu effeithiol ar gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil.

**69.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil yn cyflwyno pŵer i'r Comisiynydd Safonau gychwyn ymchwiliadau i ymddygiad yr Aelodau heb gŵyn ffurfiol. Nodwn nad yw'r Asesiad Effaith yn nodi unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o'r ddarpariaeth hon a barn Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd yw bod costau cyfle yn cael eu "hystyried yn ddibwys, yn anhysbys, ac yn deillio o fewn adnoddau presennol."[70] Rydym hefyd yn cydnabod profiad y Comisiynydd Safonau o weithio yng Ngogledd Iwerddon a'r awgrym bod ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun yn debygol o gyd-daro â materion a fyddai'n denu cwynion pa un bynnag. Serch hynny, credwn y byddai defnydd anaml o'r pŵer hwn hyd yn oed yn gofyn am amser staff, a gallai hyn ddisodli gwaith arall neu alw am gapasiti ychwanegol. Felly, rydym yn pryderu nad yw'r Asesiad Effaith yn ystyried costau cyfle posibl yn ddigonol.

**70.** Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynglŷn ag amseru eithriadol y Bil a'r risg y gallai unrhyw oedi arwain at fethu â symud y ddeddfwriaeth ymlaen. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd diwallu'r amserlen ddeddfwriaethol, rydym yn pryderu y gallai'r cyfnod craffu cywasgedig beryglu cadernid y Bil a'i amcangyfrifon ariannol ategol. Credwn fod craffu effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Bil yn cyflawni ei amcanion arfaethedig a chynrychioli gwerth am arian. Gallai rhuthro'r broses arwain at fylchau neu eglurder annigonol ar oblygiadau costau, a allai greu heriau wrth weithredu.

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig: MAB09 – Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn a'r gwaith graffu, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol yn parhau i weithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol, Comisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau i fireinio amcangyfrifon cost tra bod y mesur yn mynd drwy'r Senedd, gan sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau i fod yn gadarn ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r Bil.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn pennu'r gost amcangyfrifedig o ddarparu cymorth cynefino a pharhaus i aelodau lleyg, ac yn ymgorffori hyn wrth ddiwygio Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn sefydlu llinell wariant ar wahân yn ei ddogfennaeth gyllideb flynyddol ar gyfer costau aelodau lleyg, ac y gellir ei adnabod yn glir, er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau, yn pennu'r costau cyfle sy'n gysylltiedig ag ymgymryd ag ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun ac yn ymgorffori hyn wrth ddiwygio Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

# 3. Adolygiad ôl-weithredu

**71.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi nad oes cynllun ar gyfer adolygiad ôl-weithredu o'r Bil. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd monitro effaith mesurau i gryfhau proses safonau'r Senedd yn gyfrifoldeb y Senedd, Comisiwn y Senedd, a'r Comisiynydd Safonau. Mae hefyd yn awgrymu y gallai'r Senedd ddymuno adolygu'r system adalw ar ôl ei defnyddio am y tro cyntaf.[71]

**72.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn parhau i fonitro effaith y Bil yn ystod y broses graffu a gweithredu, gan ddiweddaru asesiadau effaith yn ôl yr angen, gan gynnwys wrth ddatblygu rheoliadau ar gyfer y system adalw.[72]

**73.** O ystyried bod y Bil yn deillio o argymhellion Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ac yn sefydlu systemau ar gyfer Aelodau, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai'r Senedd sy'n gyfrifol am asesu effeithiolrwydd y Bil. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I might go so far as to say that you might want to wait until a recall poll has actually happened in order to do that review, because, otherwise, what would you be reviewing exactly?"*[73]

**74.** Er nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth adolygu ffurfiol, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

> *"… we're sort of hoping the committees will make that point for us… the Government takes the view that, whatever the committees want to do, we will endeavour to give effect to. And we'll obviously continue to talk to the Commission itself all the way through this process as well."*[74]

## Barn y Pwyllgor

**75.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ffurfiol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu. Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn monitro effaith y Bil yn ystod y broses graffu a gweithredu, credwn fod dull adolygu â strwythur iddo yn hanfodol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio fel y bwriadwyd ac yn darparu gwerth am arian. Rydym yn cytuno â sylw'r Cwnsler Cyffredinol y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gynnal adolygiad o'r fath ar ôl y

[71] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 61
[72] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 61
[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 309
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 312

pôl adalw cyntaf gan y byddai hyn yn gosod seiliau amlwg ar gyfer gwerthuso. Credwn y dylai'r adolygiad ôl-weithredu hefyd gynnwys asesiad o'r costau a'r manteision gwirioneddol sy'n deillio o'r Bil ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i drafod hyn gyda gweinyddwyr etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Comisiwn y Senedd a phleidiau gwleidyddol er mwyn sefydlu dulliau clir i fonitro'r newidiadau yn effeithiol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil i gynnwys gofyniad statudol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu, a ysgogir gan y defnydd cyntaf o'r pôl adalw, ac y dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o gostau a manteision cysylltiedig y ddeddfwriaeth.